Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1084 (Cy. 259)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006 (O.S. 2006/1701 (Cy. 163)) ("Gorchymyn 2006").

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer cynnydd o 10.7% yn y ffioedd a bennir yng Ngorchymyn 2006 ar gyfer gwasanaethau o ran ceisiadau am dystysgrifau (erthygl 2(2)) a gwasanaethau cyn-allforio (erthygl 2(3)).

Mae'r lefelau ffioedd y darperir ar eu cyfer yn y Gorchymyn yn ffurfio'r drydedd ran a'r rhan olaf o symudiad tuag at adennill cost lawn ffioedd.

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol sy'n gymwys i'r Gorchymyn hwn ar gael gan Lywodraeth Cymru yn: Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 1084 (Cy. 259)

# IECHYD PLANHIGION, CYMRU

## Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2016

*Gwnaed* *9 Tachwedd 2016*

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* *14 Tachwedd 2016*

*Yn dod i rym* *7 Rhagfyr 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, gyda chydsyniad y Trysorlys, a thrwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 3(1) a 4A o Ddeddf Iechyd Planhigion 1967(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) (Diwygio) 2016.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Rhagfyr 2016 ac mae'n gymwys o ran Cymru.

(**1**) 1967 p. 8. Diwygiwyd adran 3(1) gan adran 4 o Ddeddf y Cymunedau Ewropeiaidd 1972 (p. 68) a pharagraff 8 o Atodlen 4 iddi ac fe'i diwygiwyd ymhellach gan erthygl 6(1) o Ran 2 o O.S. 2011/1043. Mewnosodwyd adran 4A gan adran 3 o Ddeddf Amaethyddiaeth 1986 (p. 49). Mae'r pwerau a roddir gan adrannau 3 a 4A yn cael eu rhoi i "competent authority", a ddiffinnir yn adran 1(2) fel Gweinidogion Cymru, ar gyfer Cymru. Diwygiwyd adran 1(2) gan baragraff 43 o Atodlen 2 i Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Swyddogaethau) 2013/755 (Cy. 90).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Diwygio Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006**

**2.**—(1) Mae Gorchymyn Iechyd Planhigion (Tystysgrifau Allforio) (Cymru) 2006(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle Atodlen 3(**2**) rhodder—

## "ATODLEN 3 Erthyglau 3 a 5

## Ceisiadau am dystysgrifau: ffioedd

| Gwasanaethau o ran ceisiadau am dystysgrifau | Ffi (£) | Ffi (allforiwr bach) (£) |
|---|---|---|
| (1) Gwasanaethau am lwythi heblaw grawn: | | |
| (a) arolygiad a, phan fo angen, archwiliad mewn labordy | 65.24 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 130.48 | 32.62 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 65.24 |
| (b) archwiliad mewn labordy yn unig | 36.35 | 18.18 |
| (c) dyroddi tystysgrif pan nad oes angen arolygiad neu archwiliad mewn labordy | 13.87 | 6.94 |
| (2) Gwasanaethau ar gyfer llwythi o rawn: | | |
| Monitro arolygiadau a gyflawnir gan berson awdurdodedig o dan erthygl 3(3) a, phan fo angen hynny, archwiliad mewn labordy a gyflawnir gan swyddog | 59.53 | 29.74". |

(**1**) O.S. 2006/1701 (Cy. 163), a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/1658 (Cy. 156) ac O.S. 2014/1759 (Cy. 174).

(**2**) Amnewidwyd Atodlen 3 gan erthygl 2(3) o O.S. 2013/1658 (Cy. 156), ac erthygl 2(3) o O.S. 2014/1759 (Cy. 174).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

awdurdodedig

(3) Yn lle Atodlen 4(**1**) rhodder—

## "ATODLEN 4 Erthygl 5

## Ffioedd gwasanaethau cyn-allforio

| Gwasanaeth | Ffi (£) | Ffi (allforiwr bach) (£) |
|---|---|---|
| Gwasanaeth cyn-allforio | 49.68 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 99.36 | 24.84 am bob chwarter awr neu ran ohono gydag isafswm ffi o 49.68." |

*Lesley Griffiths*
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
9 Tachwedd 2016

(**1**) Amnewidwyd Atodlen 4 gan erthygl 2(4) o O.S. 2013/1658 (Cy. 156) a chan erthygl 2(4) o O.S. 2014/1759 (Cy. 174).